# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel |
| Dyddiad: | Dydd Llun, 19 Mawrth 2018 |
| Amser: | 12.35 – 13.50 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Caroline Jones AC<br>Adam Price AC<br>Joyce Watson AC |
| Swyddogion yn bresennol: | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror.

## 2 Penodi Cynghorwyr Annibynnol newydd ar gyfer y Comisiwn

Ystyriodd y Comisiynwyr gynigion ar gyfer recriwtio a dethol carfan newydd o Gynghorwyr Annibynnol yn 2018 a 2019, wrth baratoi ar gyfer diwedd y trefniadau presennol.

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn yn gweithredu mewn rôl anweithredol ac anwleidyddol, gan roi cyngor a her adeiladol i Gomisiynwyr ac uwch reolwyr ar sawl agwedd ar fusnes y Comisiwn. Mae tri Chynghorydd Annibynnol, ynghyd ag un Comisiynydd yn aelodau o ACARAC ac mae Bwrdd Taliadau'r Comisiwn hefyd yn cynnwys tri Chynghorydd.

Cytunodd y Comisiynwyr ar y cynigion recriwtio, gyda'r broses recriwtio a dethol i gael ei rheoli'n fewnol, a chan ddefnyddio asiantaeth chwilio weithredol i nodi ymgeiswyr ar gyfer y cam rhestr hir.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Capasiti

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr. Mae Grŵp Llywio wedi'i ffurfio i ddatblygu argymhellion yr Adolygiad. Roedd swyddogion hefyd wedi cynnal cyfres o weithdai staff i drafod yr Adolygiad a'r gwaith parhaus sy'n digwydd, a chafwyd adborth cadarnhaol gan staff bod y rhain wedi bod yn ddiddorol.

Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr hefyd am y newidiadau a wneir i strwythurau uwch reolwyr, gyda'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau yn dod yn Fwrdd Gweithredol (gwneud penderfyniadau), a'r Bwrdd Rheoli yn cael ei ailgyfansoddi fel Tîm Arweinyddiaeth. Rhoddwyd gwybod i'r Comisiynwyr hefyd y byddai trefniadau dros dro i ymdrin â chyfrifoldebau ar lefel Cyfarwyddwr ar ymadawiad Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad.

Nododd y Comisiynwyr yr adroddiad.

## 4 Diwrnod cwrdd i ffwrdd ar Strategaeth y Comisiwn

Fel rhan o gylch cynllunio diwygiedig y Comisiwn, cytunodd y Comisiynwyr y byddai'n ddefnyddiol parhau â'r dull a ddefnyddiwyd y llynedd, sef cynnal gweithdy nodi strategaeth flynyddol mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd.

## 5 Papurau i'w nodi:

5.1 Diweddariad y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

5.2 Gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad – Adroddiad archwilio

Derbyniodd y Comisiynwyr yr adroddiad archwiliad mewnol o Gynllun Pensiwn yr AC, a'i nodi. Mae'r archwiliad wedi cofnodi graddfa barn sicrwydd sylweddol sy'n golygu, ar sail canlyniadau'r gwaith a wneir, fod yr Archwiliad Mewnol yn dod i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cynllun yn ddigonol ac yn effeithiol.

## 6 Unrhyw fater arall

- Caffael y Comisiwn - Bu'r Comisiynwyr yn trafod caffael gan gyflenwyr o Gymru a chytunodd i gyflwyno Dangosydd Perfformiad Allweddol penodol ar gaffael gan gyflenwyr o Gymru. Cytunwyd hefyd i ystyried y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol, a gofynnwyd am bapur ar y trefniadau caffael presennol o ran cyflenwyr o Gymru, a pha opsiynau sydd ar gael i wella perfformiad.

- Chwythu'r Chwiban - Gofynnodd Joyce Watson a allai'r Comisiwn wneud rhywfaint o waith codi ymwybyddiaeth o bolisïau a gweithdrefnau chwythu'r chwiban. Cytunodd y Comisiwn y byddai'n briodol ei gynnwys yn y pecyn gwaith a wneir yn ystod ein hwythnos cydraddoldeb, sy'n debygol o fod ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

- Ymweliad â'r Senedd Fflemig - Cytunodd y Comisiwn i dderbyn y gwahoddiad gan y Llefarydd Jan Peumans, i ymweld â'r Senedd Fflemig ym mis Mehefin 2018, yn amodol ar fod cynrychiolwyr ar gael.

- Mynediad i goridor llawr gwaelod Tŷ Hywel - Nodwyd cwynion gan yr Aelodau ynghylch y cyfyngiadau ar y mynediad i goridor bloc B ar y llawr gwaelod. Roedd y rhain wedi eu rhoi yn wreiddiol mewn ymateb i bryderon ynghylch diogelwch a tharfu ar gyfarfodydd pwyllgor. Trafododd y Comisiynwyr y mater, a daeth i'r casgliad y dylid codi'r cyfyngiadau fel bod y coridor yn agored i'w ddefnyddio, ac y a dylid atgoffa defnyddwyr i fod yn dawel er mwyn osgoi tarfu ar gyfarfodydd.

Roedd Joyce Watson am gofnodi ei diolch i bawb a fu'n rhan o'r digwyddiad 'I am Embolden', a oedd yn dathlu llwyddiannau menywod byddar ac anabl yng Nghymru.